

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 16/2/2015  
Minutes of the meeting held on Monday evening 16/2/2015

## Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair)	Mr Elfed Jones	Mrs Julia Dobson
Mrs Marilyn Hughes	Mr Dei Owens	Mr David Livingstone
Mr Jack Longman	Mrs Carys Davies	

## Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng./Cllr Wil Hughes (hwyr/late)	Cyng./Cllr Richard Jones
-----------------------------------	--------------------------

## Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)	Eira Parry (Cyfieithu / Translation)	Ms Lisa Thomas
----------------------------------	--------------------------------------	----------------

## Ymddiheuriadau / Apologies:

Mr Tony Hughes	Ms Rose Griffiths
----------------	-------------------

### **1 Croeso / Welcome**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.  
*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.*

### **2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Cynllunio / *Planning* - Wil Hughes, Richard Jones, Carys Davies, Julia Dobson  
Wylfa Newydd – Julia Dobson  
Clwb Wylfa Club – Richard Jones  
Bonc y Mor – Dei Owens

### **3 Ms Lisa Thomas - Clwb Cymdeithasol Wylfa Social Club**

Diolchwyd i Ms Thomas am ddod i'r cyfarfod i drafod dyfodol y clwb, a chafwyd grynodedb o'r sefyllfa bresennol. Deallwyd bod angen i'r clwb gyflwyno cynllun busnes i ddangos y byddai'r clwb yn gynaliadwy, ond nid yw'r clwb wedi gorfod bod yn gyaliadwy yn y gorffennol, ac felly mae'n sefyllfa gymleth wrth geisio ffurfio cwmni ac elusen er mwyn medru symud ymlaen. Roedd y clwb ar ddeall bod angen i Horizon gynnig adeilad newydd 'like for like' i'r clwb, gan gynnwys y cymorth ariannol sydd yn ei le ar hyn o bryd, ond mae ceisiadau cynllunio presennol y cwmni wedi rhoi'r clwb o'r neilltu yn gyfan gwbl.

Nodwyd bod Horizon wedi cynnig cefnogi rhai o'r grwpiau sydd yn rhan o'r clwb i ddarganfod manau eraill i gwrdd, ond teimlwyd bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio gan nifer mwy o bobl na'r grwpiau hynnu yn unig. Mae'r adeilad wedi bod yn adnodd da i'r gymuned ers rhai blynyddoedd bellach.

Trafodwyd y sefyllfa a chytuno y byddai Cwmni Cemaes efallai yn gallu edrych i ddatblygu adnodd cymunedol, a hefyd cefnogi'r clwb gyda'u cynllun busnes. Dylai Ms Thomas drafod gyda Carys Davies a Michelle Humphries i symud ymlaen.

Cytuno y dylai'r Cyngor ysgrifennu at Vaughan Finch, 'Gateway Manager' Horizon i nodi pryderon y cyngor a chefnogi cais y clwb, gyda copi at Alan Raymant ac Richard Foxhall. Nodwyd y byddai'n syniad i'r Clwb gysylltu a Rhun ap Iorwerth ag Albert Owen am gefnogaeth.

*Ms Lisa Thomas was thanked for attending the meeting to discuss the future of the club; she gave a short update on the current situation. It was understood that the club has been asked to present a business case to show sustainability, but that the club had never needed to be sustainable in the past, and as such the situation is complex with a limited company and charity being formed to be able to move forward. The club had understood that Horizon would be providing a new facility 'like for like', including the financial support that is presently given, but planning applications it seems have omitted the club completely.*

*It was noted that Horizon had offered to support some of the club's sections to find other meeting places, but it was felt that many more people and groups use the building in addition to the sections. The building has been a community facility for some years.*

*The situation was discussed at length and it was agreed that Cwmni Cemaes may be able to support the development of a new community facility, and also support the club with their business plan. Ms Thomas should contact Carys Davies and Michelle Humphries to move forward.*

*It was agreed that the Council should write to Vaughan Finch, Gateway Manager, Horizon noting our concerns and supporting the Club. Copies should be sent to Alan Raymant and Richard Foxhall. It was suggested that the Club contact Rhun ap Iorwerth and Albert Owen for support.*

#### **4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Marilyn Hughes, eiliwyd gan Julia Dobson.

*The minutes were accepted as a true record. Proposed by Marilyn Hughes, seconded by Julia Dobson.*

#### **5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

##### **5.1 Toiledau / Toilets**

Mae pethau wedi symud yn eu blaen yn sydyn iawn yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Mae'r toiledau ar agor a cyn cael eu cynnal gan y Cyngor Cymuned. Rydym ar ddisgwyl y gwaith papur swyddogol gan y Cyngor Sir cyn gynted â phosib Cafwyd wybod mewn llythyr gan Mr Dewi Williams y bydd gwaith trin a gosod peiriannau casglu arian yn digwydd ddechrau mis Mawrth.

*The matter has progressed very quickly following the last meeting and the toilets are open, being managed by the Community Council. The official paperwork is yet to be received. It was noted in a letter from Mr Dewi Williams that the maintenance work required and the payment machines will be fitted beginning of March.*

##### **5.2 Hen Waith Brics / Old Brick Works**

Cadarnhawyd bydd yr arolwg wedi ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf.

*It was confirmed that the survey will be completed within the next few weeks.*

##### **5.3 Asbestos Posib / Possible Asbestos**

Nid oedd diweddariad / *there were no updates.*

##### **5.4 Grid Cenedlaethol / National Grid**

Mae cynrychiolwyr wedi cadarnhau eu bod yn gallu dod i gyfarfod Mawrth y Cyngor. Cytuno y dylid anfon gwahoddiad i Albert Owen ac i Rhun ap Iorwerth yn ogystal ag Ieuan Williams fod yn bresennol hefyd. Cafwyd trafodaeth am y datblygiad yn gyffredinol ac fe ofynnwyd i'r Clerc anfon copi drwy e-bost o wybodaeth ar wefan y BBC yn ymwneud a gosod ceblau trydan tanfor yn yr Alban.

*Representatives have confirmed that they are able to attend the March Council meeting. It was agreed to extend the invite to Albert Owen, Rhun ap Iorwerth and Ieuan Williams. The proposals were discussed in general and the Clerk was asked to email a copy of a link to the BBC website concerning sub-sea cables in Scotland.*

##### **5.5 Trin Carffosiaeth / Sewerage Treatment**

Deallwyd gan Cyng. Wil Hughes fydd y carffosiaeth yn cael ei drin drwy gydol y flwyddyn, a gobeithir bydd safon dwr Cemaes, erbyn Ebrill 2015 yn ddigonol i gael Baner Las. Nodwyd bod hefyd angen codi ymwybyddiaeth pobl i godi baw eu cwn. Bydd Cyng. Wil Hughes yn cysylltu â'r Warden Gwn am fwy o wybodaeth.

*It was understood from Cllr Wil Hughes that the sewerage will be treated throughout the year, and it is hoped that the water quality in Cemaes will be sufficient for a Blue Flag by April 2015. It was noted that there is also a need to raise awareness for people to pop a scoop after their dogs. Cllr Wil Hughes will*

contact the Dog Warden for more information.

## 5.6 **Croesfan / Crossing**

Deallwyd gan Cyng. Will Hughes bod bron i ddamwain arall ddigwydd ger yr Ysgol yn ddiweddar yn bennaf gan fod problemau parcio. Mae nifer o ddisgyblion yr Ysgol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf gyda theuluoedd yn teithio o wahanol ardaloedd. Deallwyd bod y Cyngor Sir yn edrych ar wahanol opsiynau gan gynnwys lleihau'r broblem parcio a gosod arwyddion cyflymdra. Cytuno ysgrifennu at Mr Huw Percy i ofyn a all rhywbeth gael ei wneud cyn gynted â phosib.

*It was understood from Cllr Wil Hughes that there was yet another near-miss by the school recently, mainly due to parking issues. The number of pupils at the school has increased in recent years, with many travelling into the area. It was understood that the County Council are looking at different options including reducing the parking issue and erecting speed awareness signs. Agreed to write to Mr Huw Percy to ask that something is done as soon as possible.*

## 6 **Cyllid / Finance**

### 6.1 **Adroddiad y Pwyllgor / Finance Committee Report**

Yn absenoldeb Tony Hughes, cafwyd adroddiad cryno gan Marilyn Hughes. Nodwyd bod dau bwynt o bwys wedi eu trafod.

- Les caffi traeth - roedd y pwyllgor cyllid yn argymhell cynnig les o 12 mis yn unig gan nodi y byddai'r telerau yn newid yn Ebrill 2016, a byddai yn mynd i dendr. Roedd pawb yn hapus i symud ymlaen.
- Cae chwarae Treglele - cafwyd cynnig gan Mr a Mrs Pritchard am les 7 mlynedd ar gost o £250 y flwyddyn. Teimlai'r pwyllgor cyllid bod hyn annerbyniol a byddai les 20 mlynedd am £85 y flwyddyn debyg i'r hyn sydd gan y Cyngor Sir yn fwy ffafriol. Roedd pawb yn gytûn a'r cynnig a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu yn ôl.

*In the absence of Tony Hughes, Marilyn Hughes gave a short report following the last meeting. Two main points to note were discussed.*

- *Beach café lease – the finance committee suggested offering a 12 month lease, noting that the terms would be changing in April 2016 and that the tenancy would be going to tender. All present were happy progress.*
- *Treglele Play Area – Mr and Mrs Pritchard have made an offer of a 7 year lease at a cost of £250 per annum. The finance committee felt that this was unacceptable and that a 20 year lease at £85 per annum in line with that of the County Council would be more beneficial. All present were happy with this proposal and the Clerk was asked to respond.*

### 6.2 **Taliadau / Payments**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol / the following payments were approved for payment –  
Viking Direct (Offer gweinyddol / Stationary) £100.44  
John Roberts (Audit 2013/14) £85.00

## 7 **Cynllunio / Planning**

### 7.1 **Penderfyniadau / Decisions**

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniad canlynol -  
*The County Council confirmed the following decision –*

- 16 Maes y Capel – Caniatad / *Granted*
- 45 Gwelfor Est - Caniatad / *Granted*

### 7.2 **Ceisiadau / Applications**

Roedd un cais i'w drafod sef cais am fam sgrinio ar gyfer tyrbîn Nant y Fran ar ran Cwmni Cymunedol Talybolion. Cafwyd trafodaeth hirfaith a phenderfynu peidio gwneud sylw ar hyn o bryd. Cytuno y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gwmni Talybolion i gyfarfod Ebrill y Cyngor i gael gwybod mwy am y fenter.

*There was one application to discuss – screening opinion for a wind turbine at Nant y Fran on behalf of*

*Cwmni Cymunedol Talybolion. Following a detailed discussion it was agreed not to comment at this stage. It was agreed to invite a representative from Cwmni Talybolion to the April meeting to learn more about the venture.*

## **8 Gohebiaeth / Correspondence**

- 8.1 Cafwyd llythyr gan Rose Griffiths yn datgan na fydd yn gallu cynnal Carnifal Cemaes eto ar ol eleni. Gobeithiai bydd posib cael pwyllgor at ei gilydd fel bod y diwrnod yn parhau.

*A letter from Rose Griffiths stated that she will no longer be able to stage the Cemaes Carnival after 2015. It was hoped that a committee is formed so that the event may continue.*

- 8.2 Cafwyd llythyr gan Grŵp Cynefin yn datgan eu darganfyddiadau yn dilyn eu sesiwn ymgynghori cyn y Nadolig. Roedd yr aelodau yn gofidio bod y nifer o bobl wedi mynychu'r digwyddiad yn isel iawn ac nad oedd wedi ei hysbysebu'n ddigonol. Deallwyd bod trigolion yn bryderus iawn o'r datblygiad posib.

*Cynefin Group have states their findings following their consultation event before Christmas. Members were concerned at the lack of attendees and that the event was not adequately promoted. It is understood that residents are anxious about the proposed development.*

- 8.3 Nodwyd bod ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cymryd lle nes ddiwedd Mawrth. Penderfynwyd y byddai trefnu cyfarfod penodol i'w drafod cyn diwedd y mis - dyddiad i'w bennu yng nghyfarfod Mawrth. Bydd hyn yn rhoi amser digonol i'r aelodau ddarllen ei gynnwys.

*It was noted that the consultation for the Joint Local Development Plan is now underway until the end of March. It was agreed to arrange a specific meeting to discuss the matter before the end of March – the date to be confirmed at the next meeting. This will give members the time to read the relevant documents.*

- 8.4 Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau yn edrych i benodi dau gynrychiolwr o Gymunedau Cymuned a Thref Môn. Cytuno trafod eto yn nes at y dyddiad cau.

*It was noted that the Standards Committee are looking to appoint two representatives from the Town and Community Councils. Agreed to discuss again nearer the closing date.*

- 8.5 Daw pecyn 'Walk for Life 2015' er gwybodaeth.  
*The Walk for Life 2015 information pack was made available.*

- 8.6 Cafwyd gwahoddiad i aelodau'r Cyngor fynychu cynhadledd GeoMon yn y Gadlys nos Lun Mawrth 9fed. Cadarnhawyd gydag Elfed Jones y rheini oedd â diddordeb mynychu.

*Members were invited to the GeoMon conference to be held at the Gadlys on Monday 9<sup>th</sup> March. Those wishing to attend confirmed with Elfed Jones.*

## **9 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

### **9.1 Cwmni Cemaes –**

Cafwyd wybod gan Carys Davies y bydd diwrnod agored i'w gynnal ddydd Sadwrn Chwefror 28 er mwyn ymgynghori a hel barn y gymuned ar gynlluniau byrddau gwybodaeth ar gyfer y ganolfan newydd. Mae disgwyl i'r ganolfan agor ddiwedd Ebrill, gyda digwyddiad cymunedol dros benwythnos gŵyl y banc ddechrau Mis Mai.

*Carys Davies informed all present that an open day is to take place on Saturday 28<sup>th</sup> February to consult with the community on the designs for the new information boards to be displayed at the heritage centre. The centre is due to open at the end of April, with a community event to be held over the May day bank holiday weekend.*

## 9.2 **Llwybr Maes Cynfor Footpath**

Nodwyd bod y llwybr ger 46 Maes Cynfor angen sylw'r Cyngor Sir.

*It was noted that the footpath adjacent to 46 Maes Cynfor needs County Council attention.*

## 9.3 **Y Gloch Llanw ac Amser / Time and Tide Bell**

Nodwyd bod cynrychiolwyr o Ystâd y Goron yn ymweld â'r safle ddiwedd yr wythnos. Mae'n debyg bydd angen talu ffi am ganiatâd y Goron i gael gosod y gloch yn eu lle.

*It was noted that representatives from the Crown Estate are to visit the site at the end of this week. It appears there may be a fee to pay for the right to erect such a structure.*

## 9.4 **Bonc y Môr**

Yn dilyn pryderon iechyd a diogelwch, fe benderfynwyd y Pwyllgor Cyllid bod angen cwblhau gwaith i lwybrau ardal Bonc y Môr cyn gynted â phosib. Cyflwynwyd dau bris i'r Cyngor llawn eu hystyried. Trafodwyd y gwaith oedd angen ei wneud a phenderfynwyd penodi Dei Owens i wneud y gwaith am £1500 + Taw. Mae arian wedi ei addo gan deulu tuag at feinciau coffa a pheth o'r gwaith tirlunio.

*Following health and safety concerns, the finance committee agreed that the work to complete Bonc y Môr needs to be completed as soon as possible. Two quotes were presented to the full council for consideration. The work required was discussed and it was agreed to award the work to Dei Owens for a cost of £1500 + vat. Funding towards the memorial benches and some of the landscaping has been promised.*

## 9.5 **Nant y Wygyr**

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau oedd wedi rhoi eu hamser i dorri a thwtio yn y dyffryn yn ddiweddar gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr yr AHNE.

*The Chair thanked the members who had given their time recently to trim and tidy in the valley with the support of the AONB volunteers.*

## 9.6 **Cerbydau Gwaith / Works Vehicles**

Deallwyd bod Horizon a'r cwmnïau sydd yn gweithio iddynt yn edrych yn llym ar y gyrrwyr rheini sydd yn gyrru'n rhy gyflym tra yn eu gwaith. Gofynnwyd i bawb godi ymwybyddiaeth y cwmnïau petaent yn gweld cerbydau yn gyrru'n beryglus.

*It was understood that Horizon and their subcontractors take a dim view on drivers speeding whilst in works vehicles. It was asked that people report such instances to raise the companies' awareness of the issue.*

## 10 **Wylfa Newydd**

Nid oedd dim i'w ychwanegu yn dilyn cyflwyniad Ms Thomas ar ddechrau'r cyfarfod.

*There was nothing further to discuss following Ms Thomas' presentation at the beginning of the meeting.*

## 11 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Mawrth 16, 2015, am 6.30 o'r gloch yn y llyfrgell.

*The next meeting will be on Monday evening March 16, 2015 at the library for 6.30pm.*

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 o'r gloch. / *The meeting closed at 9.30pm.*